



Ymchwil Iechyd
a Gofal **Cymru**
Health and Care
Research **Wales**

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2019/2020



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

This document is also available in English

CYNNWYS

Cyflwyniad	3
Ein canolfannau ymchwil	4
Grantiau a dyfarniadau ymchwil	5
Seilwaith ymchwil 2015-2020	6-7
Ymchwil ym myrddau ac ymddiriedolaethau'r GIG	8-9
Edrych i'r dyfodol	10-11



+44 (0) 2920 230 457



healthandcareresearch@wales.nhs.uk



www.ymchwiliiechydagofalcymru.org



[@YmchwilCymru](https://twitter.com/YmchwilCymru)

CYFLWYNIAD

Croeso i adroddiad blynyddol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar gyfer 2019/20. Mae'n rhoi trosolwg o ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a chrynodeb o sut y gwnaethom ddefnyddio ein hadnoddau gan Lywodraeth Cymru.

Cefnogir Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru gan Lywodraeth Cymru a'i diben yw sicrhau bod ymchwil heddiw yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ofal yfory. Ein cenhadaeth gyffredinol yw hyrwyddo, cefnogi a ddarparu trosolwg ar y cyd o ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn sicrhau ei bod o'r safon wyddonol ryngwladol uchaf, ei bod yn berthnasol i anghenion a heriau iechyd a gofal yng Nghymru, a'i bod yn gwneud gwahaniaeth i bolisi ac ymarfer mewn ffyrdd sy'n gwella bywydau cleifion, pobl a chymunedau yng Nghymru.

Sefydliad wedi'i rwydweithio yw Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru, sy'n dwyn ynghyd ystod eang o bartneriaid ledled y GIG yng Nghymru, prifysgolion a sefydliadau ymchwil, awdurdodau lleol ac eraill. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth agos ag asiantaethau eraill y llywodraeth a chyllidwyr ymchwil (yng Nghymru a ledled y DU), partneriaid yn y diwydiant, cleifion, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill.

Rydym yn cyhoeddi'r adroddiad blynyddol hwn ochr yn ochr â dau adroddiad arall sy'n canolbwyntio ar effaith ymchwil iechyd a gofal yng Nghymru a'r gwerth y mae'n ei ddarparu i Lywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a'n rhanddeiliaid.

- [Gwneud gwahaniaeth: mae effaith ymchwil iechyd a gofal yng Nghymru](#) (Hydref 2020) yn arddangos effaith ymchwil ar gleifion sy'n byw â chyflyrau fel clefyd Huntington, anhwylder straen wedi trawma a chanser y fron o ganlyniad i gydweithio mawr yng Nghymru. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed ar gyfer cleifion cardiaidd yng ngofal critigol, yn ogystal â'r rhan y mae ymchwilwyr Cymru yn

parhau i'w chwarae wrth chwilio am driniaethau a brechlyn ar gyfer COVID-19.

- [Mae effaith a gwerth ymchwil a gefnogir gan sefydliadau'r GIG yng Nghymru: adroddiad KPMG a gomisiynwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru](#) (Medi 2020) yn dangos yr effaith economaidd a'r gwerth a gynhyrchwyd drwy ymchwil iechyd yn ystod 2018/19, sy'n dangos yr amcangyfrifir mai cyfraniad economaidd gweithgarwch ymchwil iechyd a gefnogir gan sefydliadau'r GIG yng Nghymru yw £93 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros ac y crëwyd tua 1,600 o swyddi gan sefydliadau'r GIG.

Mae'r adroddiad hwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20, ond wrth gwrs ym mis Chwefror 2020 daeth y pandemig COVID-19 datblygol â newid cyflym a radical i'r GIG a'r system ofal, ac i fyd ymchwil iechyd a gofal. Ni fu ymchwil erioed yn bwysicach ac yn fwy canolog i bolisi cyhoeddus, ac mae'r system iechyd a gofal wedi ymateb yn wych drwy ddarparu ymchwil i driniaethau ar gyfer COVID-19, datblygiad brechlynnau, a rheolaeth effeithiol a chyflym o'r pandemig ar raddfa sy'n wirioneddol ddigynsail. Mae adran gloi'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ffordd ymlaen i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, a rhai myfyrdodau cynnar ar y gwersi sydd i'w dysgu o'r pandemig.



Yr Athro Kieran Walshe
Cyfarwyddwr, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

EIN CANOLFANNAU YMCHWIL

Mae ein canolfannau ymchwil yn creu llwyfan i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu ymchwil o'r radd flaenaf. Mae cefnogi rhagoriaeth ymchwil ac integreiddio sylfaenol rhwng sefydliadau ymchwil a systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn helpu'r canolfannau i ddatblygu portffolios ymchwil o safon uchel sy'n mynd i'r afael â materion angen.

Yn 2019/20 daeth tymor buddsoddi pum mlynedd i ben. Roedd y buddsoddiad hwn yn galluogi canolfannau i ennill dros 900 o ddyfarniadau ymchwil newydd gwerth cyfanswm o £267 miliwn, ac aeth llawer o'r prosiectau i'r afael â materion o bwys ymarferol i iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos gwerth yr ymchwil gymhwysol sy'n mynd rhagddi.



Asesodd Canolfan Ymchwil Gofal Sylfaenol a Gofal Brys Cymru (PRIME) a all prawf gwaed pigiad bys gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch triniaeth wrthfotig mewn pobl â chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD), clefyd cynyddol yr ysgyfaint sy'n ei gwneud yn anodd anadlu. Trwy ddefnyddio'r prawf protein C-adweithiol gwelwyd 20% yn llai o bobl yn defnyddio gwrthfotigau yn ystod cyfnodau gwael o COPD. Yn bwysig, ni chafodd y gostyngiad hwn yn nefnydd gwrthfotigau effaith negyddol ar adferiad y cleifion, nac ar eu lles na'u defnydd o wasanaethau gofal iechyd yn ystod y chwe mis dilynol.

Gwerthusodd Economeg Iechyd a Gofal Cymru (HCEC) (Gwasanaeth Cymorth Economeg Iechyd Cymru yn Flaenorol) effaith y Ganolfan Iechyd, menter iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd, i hybu annibyniaeth i bobl â chyflyrau cronig. Fe wnaethant archwilio'r ffactorau sy'n arwain at weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, a'i heffaith ar les a chyfranogiad cymdeithasol. Canfuwyd

bod y cynllun wedi arwain at enillion cymdeithasol ar y buddsoddiad a wnaed, sy'n golygu, am bob £1 a fuddsoddwyd yn y cynllun, y cynhyrchodd £5.07 o werth cymdeithasol. Gostyngodd mynegai màs corff dros hanner y cleientiaid, gwelodd pwysedd gwaed traean ohonynt a gwelodd ansawdd eu bywyd ar ôl 16 wythnos.

Mae gwaith o'r fath yn cael ei lunio a'i wella'n fawr gan y partneriaethau y mae'r canolfannau wedi'u sefydlu â'r cyhoedd yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Rydym yn parhau i weld y buddion y gall cydgynhyrchu eu cael o ran datblygu grantiau a chanlyniadau ymchwil. Eleni, enillodd y **Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia (CADR)** £3.85 miliwn ar gyfer sefydliad ymchwil newydd, Sefydliad y Diwydiannau Heneiddio Creadigol (ICAI). Trwy ddefnyddio'r partneriaethau cynnwys y cyhoedd a ddatblygwyd gan CADR, bydd ICAI yn gallu gwneud pobl hŷn yn ganolog i arloesi, gan nodi eu hanghenion i sicrhau bod cynhyrchion, profiadau, amgylcheddau a gwasanaethau'n cael eu cyd-ddatblygu â phobl hŷn, nid ar eu cyfer yn unig.

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r GIG, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a chymunedau ymchwil wedi cefnogi ei gilydd yn eu hymdrechion i helpu i reoli achosion y coronafeirws. Unwaith eto, mae'r ymateb hwn wedi amlygu'r rhan hollbwysig y mae ymchwil yn ei chwarae wrth ddarganfod triniaethau newydd, atal afiechyd a gwella gwasanaethau iechyd.

Mae'r **Ganolfan Ymchwil Treialon (CTR)** wedi chwarae rhan bwysig yn yr ymdrechion hyn, gan weithio gyda phartneriaid cenedlaethol a galluogi pobl yng Nghymru i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n arwain y byd. Mae'r **Banc Data Diogel ar gyfer Cysylltiadau Gwybodaeth Ddiennw (SAIL)** wedi bod yn allweddol wrth gynorthwyo'r Llywodraeth a'r GIG yn yr ymdrech i fynd i'r afael â'r feirws, trwy ddarparu gwybodaeth hanfodol sydd wedi helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau.

Mae bod â seilwaith ymchwil eang ac addasol wedi galluogi llawer o'n canolfannau i ddechrau ymchwilio i'r effaith ar gyflyrau nad ydynt yn rhai COVID, gan gynnwys lansio arolygon ar-lein i bobl â chyflyrau iechyd meddwl (dan arweiniad y **Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl**) i ddatblygu cofrestr fyd-eang er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o sut y mae'r coronafeirws yn effeithio ar feichiogrwydd a chanlyniadau (dan arweiniad CTR).

Following an open, competitive funding call, the next five years of investment will see ongoing funding for many areas, including population health and cancer, as well as some new areas including children's social care, social prescribing and gambling. We look forward to working with our research centres to continue to maximise the research capacity and capability in Wales.

GRANTIAU A DYFARNIADAU YMCHWIL

Mae [cynlluniau grant](#) Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ariannu prosiectau sy'n berthnasol i'r cyhoedd, i arferion ac i bolisi wrth gefnogi datblygiad ymchwilwyr ledled Cymru. Yn 2019/20, arweiniodd galwadau tîm grantiau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru at [30 o ddyfarniadau cyllid newydd â gwerth oes cyfunol o dros £5.16 miliwn](#).

Roedd hyn yn cynnwys Grantiau Ymchwil Gofal Cymdeithasol, prosiectau Ymchwil er Budd Cleifion a'r Cyhoedd (RfPPB) Cymru, Cymrodoriaethau Iechyd, Ysgoloriaethau Doethuriaeth Iechyd, ynghyd â Dyfarniadau Amser Ymchwil y GIG.

Disgwylwyd i'r holl ddyfarniadau fod yn weithredol erbyn 1 Hydref 2020 yn amodol ar unrhyw oedi yn sgil effaith COVID-19 neu unrhyw amrywiadau i ddyddiadau cychwyn y cytunwyd arnynt.

Roeddem hefyd yn falch o gyllido dyfarniad Cymrodoriaeth Uwch yn dilyn cais llwyddiannus gan ymchwilydd a meddyg teulu yng Nghymru, Dr Harry Ahmed, i Raglen Gymrodoriaeth y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR).

Cymrodoriaethau Iechyd

Rhoi'r cymorth sydd ei angen ar unigolion talentog i ddatblygu'n ymchwilwyr annibynnol wrth gyflawni prosiectau ymchwil o safon sydd o fudd i ofal iechyd yng Nghymru.

Cynllun Cyllido Ymchwil: Grantiau Gofal Cymdeithasol

Cefnogi prosiectau ymchwil o safon sy'n amlwg yn berthnasol i anghenion iechyd a lles a/neu drefnu a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Ymchwil er Budd Cleifion a'r Cyhoedd (RfPPB) Cymru

Cyllido ymchwil sy'n ymwneud ag arfer y gwasanaeth iechyd o ddydd i ddydd, gyda budd i gleifion a'r cyhoedd sydd wedi'u diffinio'n glir.

Dyfarniadau Amser Ymchwil y GIG

Cyllido amser sesiwn i staff talentog y GIG gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil a datblygu.

Cymrodoriaeth Uwch NIHR Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Cefnogi unigolion ar eu llwybr i fod yn arweinwyr ymchwil yn y dyfodol. Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn gyfrifol am gyllido a rheoli ceisiadau llwyddiannus i Raglen Gymrodoriaeth y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR).

Dyfarniadau Amser Ymchwil y GIG

Mae'r ysgoloriaeth yn cefnogi'r gwaith o feithrin gallu mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol drwy gyllido prosiectau ymchwil o safon, ac yn cynnig cyfle i unigolion wneud gwaith ymchwil ac astudio sy'n arwain at ddoethuriaeth. Daw ceisiadau gan ddarpar oruchwylwyr doethuriaeth.

Cydwethrediad Cynyddu Gwaith Ymchwil (RCBC)

Mae RCBC yn bartneriaeth rhwng chwe phrifysgol yng Nghymru, sy'n rhoi cyfle i ymchwilwyr newydd a phrofiadol ym maes nyrso, bydwreigiaeth, fferylliaeth, gwyddor glinigol a phroffesiynau perthynol i iechyd, gael cyllid i gynnal ymchwil.


Mae'n cynnig amrywiaeth o ddyfarniadau, gan gynnwys Cyntaf i Gymrodoriaethau Ymchwil, doethuriaethau, cefnogi'r rhai sy'n dymuno cynnal astudiaethau ar ôl eu doethuriaeth.



CANOLFANNAU YMCHWIL 2015-2020



o gyllid uniongyrchol
wedi'i ddyfarnu




o samplau o feinwe wedi'u
rhoi



o grantiau wedi'u hennill



o swyddi wedi'u creu
drwy grantiau a
enillwyd



o grantiau wedi'u hennill



o swyddi wedi'u creu
drwy gyllid
uniongyrchol



o gyhoeddiadau ymchwil

EIN CYLLID

Cyfanswm **£5.2m**

6 Ysgoloriaethau Doethuriaeth Iechyd

£392k

4 Cymrodoriaethau Iechyd

£1.3m

1 Cymrodoriaeth Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer
Ymchwil Iechyd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

£370k

7 Cynllun Cyllido Ymchwil: Grantiau Gofal Cymdeithasol

£1.5m

6 Dyfarniadau Ymchwil er Budd Cleifion a'r Cyhoedd (RfPPB) Cymru

£1.2m

6 Dyfarniadau Amser Ymchwil y GIG

£393k

CEFNOGI A CHYFLENWI 2019/20



14,970

o gyfranogwyr wedi'u recriwtio i astudiaethau ymchwil o safon



219

o astudiaethau masnachol gweithredol




616

o astudiaethau ymchwil gweithredol anfasnachol o safon

YMCHWIL COVID-19 (hyd at 20/10/20)



cyfanswm yr astudiaethau COVID-19




nifer astudiaethau COVID-19 lechyd Cyhoeddus Brys (UPH) (roedd 12 o'r rhain yn ymyraethol)



wedi'u recriwtio i astudiaethau COVID-19 lechyd Cyhoeddus Brys (roedd 1,010 o'r rhain yn ymyraethol)

15



diwrnod i fod yn agored i recriwtio (astudiaethau UPH yn unig)

7.5



diwrnod (canolrif) o agor i recriwtio'r claf cyntaf (astudiaethau UPH yn unig)

YMCHWIL YM MYRDDAU AC YMDDIRIEDOLAETHAU'R GIG

Mae ymchwil yn un o swyddogaethau craidd GIG Cymru ac ni fu'r angen am ymchwil i ddarparu atebion i ddiagnosis, triniaeth ac atal erioed mor amlwg. Mae Gwasanaeth Cefnogi a Chyflenwi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i noddwyr, ymchwilwyr a'r cyhoedd drwy gydol y llwybr cyflawni ymchwil gyfan.

Eleni, fe wnaeth 835 o astudiaethau o safon recriwtio'n weithredol o bob rhan o iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r amrywiaeth o astudiaethau a gyflawnir drwy sefydliadau'r GIG, i amrywiaeth eang o gyflyrau sy'n effeithio ar iechyd a lles yng Nghymru, yn galluogi cleifion y GIG i ddefnyddio triniaethau newydd – cafodd ychydig llai na 15,000 o gyfranogwyr eu recriwtio yng Nghymru eleni, gan ddarparu gwell opsiynau triniaeth a gofal wedi'u seilio ar dystiolaeth.

- ◆ Rydym yn parhau i ddatblygu systemau a phrosesau i gyflymu a gwella effeithlonrwydd camau sefydlu a goruchwylio astudiaethau – er mwyn cyflawni gwasanaeth di-dor Cymru'n Un.◆

Dr Nicola Williams,
Cyfarwyddwr Cefnogi a Chyflenwi, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru





Mae'r datblygiadau allweddol eleni yn cynnwys:

- [Proses costio a chontractau Cymru'n Un](#) – darparu gwelliannau sylweddol drwy un dull contractio cyson i leihau dyblygu; mabwysiadu tariffau'r DU; a phawb yn derbyn y broses negodi costau a gynhelir gan gydlynwyr cenedlaethol achrededig yng Nghymru a Lloegr ar gyfer astudiaethau masnachol.
- [Dull cyllido newydd ar gyfer darparu ymchwil i Gymru gyfan](#) – gan sicrhau bod cyllid cymorth yn cael ei ddyrannu i ble mae'r ymchwil yn digwydd a'i bod yn gymesur â lefel y costau a ysgwyddir ar wahanol gamau o gyflawni'r astudiaeth.
- [Treialu gwasanaeth sefydlu astudiaethau Cymru'n Un](#) – sy'n dangos buddion mabwysiadu dull cenedlaethol, cydgysylltiedig o nodi safleoedd, sefydlu astudiaethau a goruchwylio astudiaethau'n barhaus.
- [Sefydlu gwasanaeth cymeradwyo integredig](#) – gan dynnu ynghyd y timau a'r prosesau sy'n darparu adolygiad a chymeradwyaeth rheoleiddiol a moesegol; cysoni mewn partneriaeth â'r Awdurdod Ymchwil Iechyd yn Lloegr, lleihau dyblygu a symleiddio prosesau er budd i ymchwilwyr; a chyflwyno dull cyson o asesu, trefnu a chadarnhau capasiti a gallu ar lefel leol.
- [Gwella prosesau nodi safleoedd](#) – lleihau'r baich ar glinigwyr yn y GIG a noddwyr.
- [Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o ymchwil yng Nghymru](#) – gan gynnwys drwy ddigwyddiadau ymchwil newydd 'Sôn am Ymchwil'.
- [Darparu rhaglen hyfforddi o safon](#) – mynd i'r afael â chymwyseddau craidd ymchwilwyr drwy gyfres o sesiynau.
- [Gwella'r cyfle i ddefnyddio gwybodaeth ymchwil](#) – gwneud newidiadau i'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chofnodi a'i hadrodd i gefnogi prosesau goruchwylio astudiaethau.

Mae'r mentrau Cymru'n Un hyn wedi ei gwneud yn ofynnol i holl sefydliadau'r GIG gydweithio i wella cysondeb, ac mae Canolfan Cefnogi a Chyflenwi Ymchwil a Gofal Cymru wedi darparu gwasanaeth cydgysylltu cenedlaethol. Mae gweithio gyda chydweithwyr o'r pedair gwlad, yn rhan o ddull cydgysylltiedig o gefnogi ymdrech ymchwil ledled y DU, wedi bod yn hanfodol hefyd. Gyda'n gilydd, rydym ni wedi cyflawni llawer o ddatblygiadau sydd wedi helpu i symleiddio prosesau ymchwil a'i gwneud yn haws gwneud ymchwil sy'n croesi ffiniau.

Wrth i ni symud ymlaen at 2020/21, rydym wedi gweithredu llawer o newidiadau yn gyflym mewn ymateb i bandemig COVID-19 – ymdrech genedlaethol cydgysylltiedig i sicrhau bod ymchwil yn cael ei sefydlu a'i chyflawni'n gyflym ar y raddfa a'r cyflymder angenrheidiol, trwy sefydlu astudiaethau a recriwtio cleifion o fewn oriau neu ddyddiau i gymeradwyaeth reoleiddiol. O ganlyniad, mae Cymru'n rhan allweddol o astudiaethau i ddod o hyd i driniaethau (brechlynnau, therapiwteg a diagnosteg) ar gyfer cleifion COVID-19 trwy ymchwil.

EDRYCH I'R DYFODOL: DYFODOL YMCHWIL IECHYD A GOFAL YNG NGHYMRU

Bydd eleni'n aros yn hir yn y cof, o ran dyfodiad COVID-19 a'r pandemig dilynol a'r canlyniadau difrifol, a thrasig yn aml, y mae wedi'u cael ar ein system iechyd a gofal cymdeithasol, ein heconomi, a'n cymdeithas. Wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, dylid myfyrio ar wersi ehangach y pandemig sy'n dod i'r fei.



Rydym o'r farn bod pedwar pwynt allweddol:

Mae'r pandemig wedi dangos yn glir pa mor ganolog yw ymchwil a thystiolaeth i iechyd a gofal yng Nghymru, a'u pwysigrwydd i'r broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel yn y system iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn syml, mae rhoi terfyn ar y pandemig yn dibynnu'n sylfaenol ar ymchwil yn darparu atebion i ddiagnosis, triniaeth ac atal. Y wers yw bod angen i benderfyniadau allweddol ynghylch iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru gael eu llywio gan dystiolaeth gadarn, er nad yw hynny ar gael bob amser ar hyn o bryd.

Mae meddu ar y capasiti a'r gallu ymchwil yn rhwydd ac yn barod i ymateb wedi bod yn hynod werthfawr.

Ar lefel y DU, mae'r buddsoddiadau mewn modelu gallu ymchwil pandemig ac ymchwil therapiwteg wedi bod yn hanfodol i gychwyn ymchwil yn gyflym. Yng Nghymru, mae'r seilwaith wedi'i gyllido o ganolfannau ac unedau ar gyfer ymchwil iechyd a gofal wedi bod yr un mor bwysig - er enghraifft cronfa ddata SAIL i ddefnyddio data dienw cysylltiedig i ddarparu camau monitro COVID mewn amser real, a chyfranogiad Parc Geneteg Cymru wrth ymchwilio i eneteg COVID-19. Mae angen i ni fuddsoddi mewn capasiti a gallu ymchwil yn y dyfodol i sicrhau y gallwn ymateb i anghenion tystiolaeth Cymru yn y dyfodol.

Er mwyn bod yn ddefnyddiol, mae'n rhaid i ymchwil fod yn amserol, ac mae'n rhaid iddi symud o leiaf yr un mor gyflym â'r pandemig.

Mae amserlenni arferol ar gyfer comisiynu, sefydlu, cyflawni, adrodd ac yna defnyddio ymchwil COVID-19 wedi'u trawsnewid - gyda phrosesau adolygu cyflym ar gyfer cyllido ymchwil ar lefel y DU, sefydlu astudiaethau o fewn dyddiau, ac ymchwil yn mynd rhagddi'n gyflym a fydd yn arwain at ganlyniadau o fewn wythnosau neu fisoedd. Mae angen i ni drawsnewid ein dull o ymdrin ag ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn ei wneud yn gyflymach, yn fwy hyblyg ac yn fwy ymatebol.

Mae'r heriau o gadw ar ben y corff cynyddol o dystiolaeth am COVID-19 wedi bod yn aruthrol, ac mae angen cymorth i ledaenu gwybodaeth/defnyddio tystiolaeth.

Bu cynnydd byd-eang i ymchwil mewn ymateb i'r pandemig gyda dyblygu sylweddol yn yr ymchwil enfawr hon er gwaethaf ymdrechion cyllidwyr ymchwil a thimau ymchwil i gydgyssylltu a chydweithio. Mae'n anodd iawn cadw ar ben yr wybodaeth ddiweddaraf ac asesu safon yr ymchwil yn feiriadol. Mae angen i ni fuddsoddi mewn ffyrdd effeithiol o gasglu a chyfuno ymchwil sy'n bodoli eisoes, ac i ddod o hyd i gyfuniadau tystiolaeth priodol sydd wedi'u llunio a'u defnyddio eisoes gan eraill, er mwyn llywio polisi ac arfer yng Nghymru.

Cenhadaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yw hyrwyddo, cefnogi a darparu trosolwg ar y cyd o ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn sicrhau ei bod o'r safon wyddonol ryngwladol uchaf, ei bod yn berthnasol i anghenion a heriau iechyd a gofal yng Nghymru, a'i bod yn gwneud gwahaniaeth i bolisi ac ymarfer mewn ffyrdd sy'n gwella bywydau cleifion, pobl a chymunedau yng Nghymru.

Mae'n rhaid i hyn fod yn ymdrech ar y cyd lle y defnyddir cryfderau ac asedau amrywiaeth eang o randdeiliaid.

Yn benodol, mae'n dibynnu ar ymgysylltiad cryf gan gleifion a'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill wrth bennu'r agenda ymchwil; ar gydweithredu effeithiol gan gyllidwyr (yng Nghymru ac ar lefel y DU) ym maes cynllunio a chyllido ymchwil; ar gapasiti a gallu prifysgolion a'r GIG i arwain, cynnal a chefnogi ymchwil; ac ar gapasiti a gallu arweinwyr iechyd a gofal a'u sefydliadau, gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol, a rhanddeiliaid eraill i ddefnyddio ymchwil yn effeithiol i newid polisi ac ymarfer ac i arloesi a gwella.


Yn syml iawn, mae hyn yn arwain at bedwar nod a fydd yn llywio ein gwaith yn 2020/21 a thu hwnt:

- **Pennu'r agenda ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru**
Byddwn yn gweithio gyda'r holl randdeiliaid gan gynnwys cleifion a'r cyhoedd i bennu'r agenda ar gyfer ymchwil a datblygu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan hyrwyddo ymchwil fel ysgogiad i arloesi a gwella iechyd a gofal.
- **Cyllido a threfnu ymchwil**
Byddwn yn cydgysylltu ac yn cysylltu ag asiantaethau cyllido ymchwil yng Nghymru ac ar lefel y DU i gynllunio a chyllido ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol. Ein nod yw gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau a sicrhau'r ymgysylltu mwyaf posibl i Gymru â phroses cyllido ymchwil y DU a rhyngwladol.
- **Sicrhau'r capasiti a'r gallu i ddarparu ymchwil iechyd a gofal**
Byddwn yn cydweithio fel rhwydwaith o brifysgolion, byrddau ac ymddiriedolaethau'r GIG, awdurdodau lleol a darparwyr gofal yng Nghymru i greu a chynnal capasiti a gallu mewn ymchwil ac i gefnogi sefydliadau i arwain, cynnal a chefnogi ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol.
- **Defnyddio ymchwil i wella iechyd a gofal cymdeithasol**
Byddwn yn gweithio gydag arweinwyr y system iechyd a gofal a'u sefydliadau i hyrwyddo'r defnydd effeithiol o ymchwil ym maes arloesi a gwella, gan arwain at ledaenu a chynyddu'r gwelliannau hynny.

“ Mae'n rhaid i ni beidio â diystyru maint yr her, na'r enillion posibl. Trwy weithio gyda'n gilydd, gallwn wireddu'r syniad bod 'ymchwil heddiw yn arwain at ofal yfory'. ”

Yr Athro Kieran Walshe, Cyfarwyddwr, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

EIN CANOLFANNAU YMCHWIL 2020



Ymchwil Iechyd
a Gofal **Cymru**

Health and Care
Research **Wales**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil heddiw; gofal yfory.